

Llesiant mewn gwaith - cefnogi pobl mewn gwaith ac i ddychwelyd i'r gweithlu: Adolygiad o dystiolaeth economaidd

Rhif Adroddiad RR0009 (Tachwedd 2023)

CRYNODEB GWEITHREDOL

Ar gyfer pwy mae'r adroddiad hwn?

Mae'r adroddiad hwn ar gyfer rhanddeiliaid o Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Gofynnodd y rhanddeiliaid hyn i dîm Adolygiad Cyflym Sefydliad Ymchwil Iechyd a Meddygol Bangor (BIHMR) / Canolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau (CHEME) i ymchwilio i'r cwestiwn: Pa ymyriadau cost-effeithiol sydd ar gael i gefnogi pobl mewn gwaith a chynorthwyo pobl i ddychwelyd i'r gweithlu?

Cefndir / Nod yr adroddiad

Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad hwn yn adeiladu ar adroddiad ['Llesiant mewn Gwaith'](#) 2019 (Edwards et al., 2019). Defnyddiwyd methodoleg adolygu cyflym i nodi tystiolaeth economaidd wedi'i diweddarau ar raglenni neu ymyriadau a gynlluniwyd i alluogi gweithwyr i aros yn y gweithlu a dychwelyd i'r gweithlu. Yng Nghymru, mae 1.48 miliwn o bobl mewn cyflogaeth ar hyn o bryd a 58,300 o bobl sy'n ddi-waith. Mae hyn yn cyfateb i gyfradd ddiweithdra o 3.8% yng Nghymru.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio'n eang ar ddeall effaith economaidd llesiant yn y gweithle. Mae adran agoriadol ein hadroddiad yn cyflwyno'r cysyniad o lesiant ac yn trafod cyflogaeth, diweithdra a diffyg gwaith yng Nghymru yn ogystal â hunangyflogaeth a gwahanol fathau o gyflogwyr. Mae adrannau hefyd ar bobl ifanc mewn gwaith, hen bobl mewn gwaith, menywod mewn gwaith, ac adran am y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r brif adran yn yr adroddiad ar fanteision economaidd cadw'r gweithlu'n iach. Mae'n canolbwyntio ar ganfyddiadau ein hadolygiad cyflym o'r llenyddiaeth fyd-eang o dystiolaeth economaidd ar gyfer rhaglenni ac ymyriadau yn y gweithle sy'n mynd i'r afael ag anawsterau iechyd meddwl cyffredin, anawsterau iechyd meddwl difrifol, rhoi'r gorau i ysmegu, bwyta'n iach, gweithgarwch corfforol a rheoli defnydd anghyfreithlon o gyffuriau yn y gweithlu.

I'w cynnwys yn yr adroddiad, roedd angen i astudiaethau adrodd ar werthusiadau economaidd, enillion ar ddadansoddiadau buddsoddi, dadansoddiadau cost, neu ganlyniadau cysylltiedig â gwaith o ddi-ddordeb economaidd (h.y., cyfraddau cyflogaeth, absenoldeb salwch, presenoldeb, cynhyrchiant gwaith). Cafodd astudiaethau eu cynnwys waeth beth yw eu hansawdd methodolegol cyn belled â'u bod yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd. Roedd y chwiliadau'n eang i ddal ystod eang o wahanol ymyriadau yn y gweithle. Roedd y strategaeth chwilio yn cynnwys y termau 'gweithle', 'lles yn y gwaith', 'gweithle iach' a thermau economeg iechyd i ddal gwerthusiadau economaidd a chostau astudiaethau fel 'cost-effeithiolrwydd', 'budd cost' a 'dadansoddi costau'.

Canlyniadau

Adolygiad o'r sylfaen dystiolaeth

- Chwiliwyd y cronfeydd data am lenyddiaeth a gyhoeddwyd rhwng 2017 a 2023.

Maint y sylfaen dystiolaeth

- Cafodd 76 o bapurau eu cynnwys yn yr adolygiad cyflym. O'r rhain, roedd n=52 yn astudiaethau sylfaenol ac roedd n=24 yn adolygiadau neu'n adolygiadau systematig.

- Cafwyd hyd i astudiaethau economeg yn ymwneud â chyflyrau iechyd meddwl cyffredin; cyflyrau iechyd meddwl difrifol; brechiad fflw; defnydd anghyfreithlon o gyffuriau; ysmegu a fepio; bwyta'n iach a gweithgarwch corfforol.

Canfyddiadau allweddol a sicrwydd y dystiolaeth

- Fe wnaethom nodi ystod o dystiolaeth economaidd o ansawdd isel, canolig ac uchel yn ymwneud ag ymyriadau sy'n targedu llesiant yn y gweithlu.
- Mae tystiolaeth o ansawdd uchel y gall ymyriadau yn y gweithlu ar gyfer gweithwyr sydd mewn perygl o anhwylderau iechyd meddwl cyffredin arbed costau i fusnesau a'r sector iechyd a gofal cymdeithasol.
- Mae tystiolaeth gymysg bod ymyriadau ar gyfer gweithwyr ag arthritis neu gyflyrau cyhyrsgerbydol eraill yn gost-effeithiol o'u cymharu â gofal arferol (triniaeth fel arfer).
- Mae rhaglenni brechu yn erbyn fflw yn gost-effeithiol os yw canran uchel o'r gweithlu yn cael y brechlyn. Mae rhaglenni brechu yn lleihau cyfraddau absenoldeb.
- Mae tystiolaeth sy'n gwrthdaro ynghylch p'un a yw rhaglenni rhoi'r gorau i ysmegu yn y gweithle yn gost-effeithiol wrth leihau ysmegu.
- Mae tystiolaeth gymysg y gellir lleihau'r defnydd anghyfreithlon o gyffuriau gan weithwyr gydag ymyriadau megis sgrinio yn y gweithle, hunan-arweiniad, cymorth lleoliad unigol, a chymorth gweithdy.
- Mae tystiolaeth o ansawdd uchel ar yr ymyriadau cost-effeithiolrwydd sy'n canolbwyntio ar fwyta'n iach a gweithgarwch corfforol yn y gweithle. Er enghraifft, gall gwaharddiadau siwgr arbed costau i'r cyflogwr oherwydd gostyngiadau mewn absenoldeb sy'n gysylltiedig â salwch.
- Mae tystiolaeth o ansawdd cymedrol bod desgiau sefyll yn ffordd gost-effeithiol o wella cynhyrchiant gwaith.
- Mae gofalu am y gweithlu yn bwysig ar gyfer cynhyrchiant, gan fod gweithwyr iach a hapus yn fwy abl i ffynnu ac aros yn y gweithlu am gyfnod hirach.

Goblygiadau Ymchwil a Bylchau Tystiolaeth

- Mae bwlch yn y dystiolaeth ynghylch canlyniadau cynhyrchiant ymhlith gweithwyr hŷn, ond mae tystiolaeth argyhoeddiadol i awgrymu y gallai diffyg gwaith gael effeithiau niweidiol ar les pobl hŷn oherwydd colli cysylltiadau cymdeithasol, ysgogiad meddyliol, hyder, cael eu gwerthfawrogi a gwneud cyfraniad cadarnhaol i gymdeithas.
- Mae bwlch hefyd yn y dystiolaeth ynglŷn â chanlyniadau cynhyrchiant ymhlith menywod o oedran menopos a menywod sydd â chyflyrau fel endometriosis.
- Mae bwlch yn y dystiolaeth ynglŷn â niwroamrywiaeth yng Nghymru. Anawsterau dysgu difrifol neu benodol ac awtistiaeth yw'r anabledau sydd â'r cyfraddau cyflogaeth isaf yng Nghymru. Nid yw 70% o'r boblogaeth ag awtistiaeth yn y DU mewn cyflogaeth.

Goblygiadau Polisi ac Ymarfer

- Mae angen ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad hwn ar ymyriadau cost-effeithiol i wella lles y gweithlu yng Nghymru.
- Mae angen polisiau a gweithdrefnau wedi'u diweddarau i wella cyfleoedd cyflogaeth cyfartal, waeth beth fo'u hoedran, rhyw neu statws anabled.

Ystyriaethau Economaidd

- Ymhlith gwledydd y G7, mae'r Deyrnas Unedig (DU) yn perfformio'n gymharol wael mewn perthynas â dychwelyd i gyfraddau cyflogaeth cyn y pandemig. Mae hyn yn cael ei achosi'n rhannol gan restrau aros llawdriniaethau dewisol hir yn ogystal â rhestrau aros hir ar gyfer apwyntiadau cleifion allanol yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) ledled y DU, gan amlygu'r berthynas gylchol rhwng iechyd a'r economi.